

18/06/21

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Gobeithio bod y llythyr hwn yn eich cyrraedd chi i gyd yn ddiogel ac iach. Hoffwn eich hysbysu o ambell beth i'ch helpu i baratoi at drosglwyddiad eich plentyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ym Mis Medi.

### Ymweliad 30ain Mehefin 2021

Hoffwn wahodd eich plentyn i ymweld â Bryn Tawe ar Ddydd Mercher, 30ain o Fehefin. Mi fydd y sesiwn yn cynnwys taith o amgylch yr Ysgol a chyfle i gwrdd â'u tiwtoriaid a'u Pennaeth Blwyddyn.

**Byddwn ni yn dilyn canllawiau Covid yn ystod yr ymweliad gan sicrhau y bydd disgyblion pob Ysgol gynradd yn cadw ar wahân ac yn cyrraedd a gadael drwy mynedfeydd gwahanol i sicrhau nad oes unrhyw gymysgu. Ni fydd disgyblion Bryn Tawe yn yr adeilad ar y diwrnod hwn.** Dyma amseroedd cyrraedd a gadael yr ysgolion cynradd:

Amserlen y Diwrnod			
Ymweliad 1	09:00 – 10:30	Ysgol Tirdeunaw	
Ymweliad 2	11:00 – 12:30	Ysgol Lôn Las	Ysgol y Cwm
Ymweliad 3	13:00 – 14:30	Ysgol Gellionnen	Ysgol Tan-y-Lan

Rhai trefniadau ymarferol y diwrnod Pontio:

- Bydd ysgolion cynradd eich plentyn yn trefnu cludiant i Fryn Tawe ac yn ôl i'r ysgol gynradd. Gofynnir i rieni Tirdeunaw i ollwng eich plentyn ym Mryn Tawe erbyn 09:00 a bydd ysgol Tirdeunaw yn trefnu cludiant yn ôl i'r ysgol ar ddiwedd yr ymweliad.
- Bydd cyfle i ddisgyblion 'ymweliadau 2 a 3' fwyta'u cinio cyn neu ar ôl eu hymweliad – bydd ysgol gynradd eich plentyn yn trefnu hyn.
- Byddwn ni yn darparu byrbryd iddynt, fel rhan o'r profiad o ymglyfarwyddo gyda ffreutur Bryn Tawe.
- Bydd hefyd disgwyl i'r disgyblion wisgo mwgwd o fewn adeilad yr ysgol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd i ddisgyblion presennol Bryn Tawe - felly bydd angen sicrhau bod ganddynt fwgwd os gwelwch yn dda ar gyfer yr ymweliad.

### Noson Rhieni Pontio

Rydym yn eich gwahodd i noson rieni ponrio rhithiol am 17:00 ar nos Fercher y 30/06/21. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach gyda chi am Fryn Tawe a bydd cyfleoedd i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Cliciwch ar y ddolen yma i ymuno: [Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

### Gwisg Ysgol

Wrth feddwl am baratoi i'ch plentyn ddod i Fryn Tawe, hoffwn eich atgoffa i archebu'r wisg ysgol gywir a'r cit Addysg Gorfforol (gweler y ddolen yma: <https://www.youtube.com/watch?v=q900arr1Yaw>) o siop Bergoni, yn Llansamlet cyn diwedd Mis Gorffennaf er mwyn sicrhau y bydd gwisg ysgol eich plentyn yn barod gyda chi cyn Mis Medi. Dyma ddolen i'w safwe: <https://www.bergoni.co.uk/collections/bryntawe>

### Cyfrif Squid Ffreutur yr Ysgol

Mi fydd llythyr yn eich cyrraedd yn ystod yr wythnosau nesaf gyda manylion cofrestru ar gyfer cyfrif Squid newydd i'ch plentyn ym Mryn Tawe. Yn anffodus, **ni fydd cyfrif Squid yr ysgol gynradd yn gweithio ym Mryn Tawe**, felly bydd angen i chi gofrestru am gyfrif newydd er mwyn i chi fedru rhoi arian ar gyfrif eich plentyn ar gyfer mis Medi.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwb.cymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwb.cymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)



BUDDSODDWYR  
MEWN POBL

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies



Mae'n parhau i fod yn gyfnod ansicr i bawb ond yn enwedig i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd wedi colli sawl mis o'u blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd; ond gobeithiaf y bydd yr ymweliad i'r ysgol yn lleddfu eu gofidiau wrth iddynt feddwl am symud ymlaen i Ysgol Bryn Tawe.

Yn gywir,  
Miss Angharad Jenkins  
Cydlynnydd Pontio

18/06/21



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)



BUDDSODDWYR | Aur  
MEWN POBL



Pennaeth : Mr Simon Davies

